**Y broses ar gyfer yr Addasiad i'r Grant Bloc**

1. Yn dilyn datganoli pwerau trethu i Gymru, caiff grant bloc Llywodraeth Cymru ei leihau i adlewyrchu'r ffaith y bydd refeniw trethi datganoledig a rhannol-ddatganoledig bellach yn mynd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn hytrach nag i Drysorlys y DU.

2. Fel y cytunwyd yn y fframwaith cyllidol, mae dwy elfen i'r addasiadau ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi –
    a. llinell sylfaen ar gyfer yr addasiad – gan adlewyrchu'r dreth a gasglwyd o dan dreth flaenorol y DU yng Nghymru erbyn yn 2017-18, y flwyddyn cyn ei datganoli.
    b. Addasiadau blynyddol i'r grant bloc – o'r llinell sylfaen gychwynnol mae'r addasiad yn cael ei chynyddu neu ei gostwng gan adlewyrchu twf yn nhreth gyfatebol y DU yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

3. Cafodd yr addasiadau ar gyfer 2018-19 a 2019-20 eu pennu yn gyntaf gan ddefnyddio rhagolygon hydref 2017 y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ar gyfer treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Caiff y rhain eu diweddaru bellach i gymryd i ystyriaeth rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer hydref 2018.

4. Caiff effaith rhagolygon OBR ar yr addasiadau i'r grant bloc eu hadlewyrchu yn y Gyllideb derfynol yn Rhagfyr. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn bwriadu cyhoeddi manylion yr addasiadau diwygiedig yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

5. Mae Llywodraeth Cymru'n gwneud gwaith dadansoddi i ddarganfod sut yr effeithiodd ymddygiad rhagbrynu ar refeniw treth dir y dreth stamp a'r dreth trafodiadau tir dros y cyfnod pontio yn gynharach eleni. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrthi'n trafod i ba raddau y dylai'r addasiad i'r grant bloc ganiatáu ar gyfer yr effaith ymddygiadol hon.

6. Ar gyfer 2018-19, bydd proses gysoni pan fydd gwybodaeth am alldro ar gael tua 6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Caiff canlyniad y cysoniad hwn ei gymhwyso yn y flwyddyn ariannol ganlynol (2020-21).

7. Caiff addasiadau 2019-20 eu diwygio ymhellach yn unol â rhagolygon OBR yr hydref nesaf.

8. Ar gyfer treth incwm craidd yr addasiad i'r grant bloc ar gyfer 2019-20 ei bennu ar lefel y refeniw a ddisgwylir o gyfraddau Cymru ac fe gaiff ei ddiwygio i adlewyrchu'r alldro pan fydd ar gael. Felly ni fydd unrhyw effaith gyllidebol net yn 2019-20.

9. Yn y dyfodol, bydd yr addasiad i'r grant Bloc ar gyfer treth incwm yn amrywio yn ôl y twf mewn refeniw o 10c o bob band treth yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Caiff yr addasiad ei bennu gan ddefnyddio rhagolygon OBR yn yr hydref cyn pob blwyddyn ariannol ac fe gaiff ei gyfrifo ar wahân ar gyfer pob band.

10. Bydd data am alldro ar gael tua 15 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ac fe gaiff canlyniad y cysoniad ei gymhwyso yn y flwyddyn ariannol ganlynol.